**Gwybodaeth gyfeirio atodol posibl ar gyfer gwefan Llywodraethwyr Cymru**

**Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a Phrosesau Allweddol**

Er mwyn cyflawni rhagoriaeth mewn unrhyw beth rhaid cydnabod a darparu ar gyfer yr holl amodau blaenorol sydd angen eu cyflawni. Gelwir yr amodau blaenorol hyn hefyd yn 'Ffactorau Llwyddiant Hanfodol'. Wrth ffocysu staff a rhan ddeiliaid eraill ar nodau ac amcanion yr ysgol mae'n bwysig bod y corff llywodraethu a'r Uwch Dîm Rheoli, fel rhan o'r broses o gynllunio strategol, yn penderfynu beth yw'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol. Y gwir braw far gyfer hyn yw, 'Os nad yw'r Ffactor wedi'i gyflawni, oes modd gwireddu ein gweledigaeth?' Dyma enghreifftiau o Ffactorau Llwyddiant Hanfodol:

*Cyflawniad Dysgwyr/Cwblhau'n Llwyddiannus*
*Addysgu, Dysgu ac Asesu Effeithiol*
*Diwallu Anghenion Dysgwyr a'r Gymuned*
*Gwell Adeiladau ac Adnoddau*
*Gofal Bugeiliol Effeithiol*
*Arweinyddiaeth a Rheolaeth Effeithiol*
*Gwerthuso a Gwelliant Parhaus*
*Cynnydd yn yr amrediad o Bynciau a Chwricwlwm*

Bydd prosesau allweddol o fewn system reoli'r ysgol yn gwasanaethu pob Ffactor Llwyddiant Hanfodol. Fel rheol y corff llywodraethu neu ei is-bwyllgorau fydd yn goruchwylio pob proses. Ac felly galli pob un fod yn 'eiddo' i lywodraethwr neu lywodraethwyr. Gallai prosesau allweddol nodweddiadol gynnwys:

*Recriwtio a Datblygiad Staff*
*Cynllunio Strategol a Gwerthuso*
*Arloesi, Ymchwil a Datblygu*
*Rheolaeth Amgylcheddol*
*Recriwtio a Chadw Dysgwyr*
*Adeiladu Partneriaethau Trefnyddol*
*Rheolaeth Safle (Cyfleusterau)*
*Rheolaeth Perfformiad*
*Rheolaeth Cyflenwr*
*Rheolaeth TGC*
*Adeiladu Rhwydweithiau Proffesiynol*
*Rheolaeth Rhieni*

Trwy roi'r rhain i gyd mewn matrics gall y corff llywodraethu a'r Uwch Dîm Rheoli benderfynu pa brosesau y dylid eu blaenoriaethu wrth benderfynu sut y dylid dyrannu adnoddau.

## Croes gyfeirio Ffactorau Llwyddiant Hanfodol gyda Phrosesau Allweddol

Gellir rhoi pwysedd i bob Ffactor Llwyddiant Hanfodol a gall y llywodraethwyr a'r Uwch Dîm Rheoli farnu pa effaith sydd gan bob Proses Allweddol ar bob Ffactor Llwyddiant Hanfodol. Bydd hyn yn gymorth i benderfynu ar bwysigrwydd y prosesau Allweddol a blaenoriaethu gweithredu.

Enghraifft damcaniaethol

| Pwysedd / FLH / Prosesau | 9 Cyflawniad Dysgwyr/ cwblhau'n llwyddiannus | 8 Addysgu, dysgu ac asesu effeithiol | 5 Diwallu anghenion dysgwyr a'r gymuned | 6 Gofal bugeiliol effeithiol | 9 Arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol | 7 Gwerthuso a gwelliant parhaus | 5 Gwell adeiladau ac adnoddau | 5 gwell amrediad o bynciau a chwricwlwm | Cyfanswm pwysedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Recriwtio a Datblygiad Staff | Cryf | Cryf | Canolig | Cryf | Cryf | Cryf | Canolig | Cryf | 152 |
| Rheolaeth Safle (Cyfleusterau) | Canolig | Gwan | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig | Cryf | Cryf | 108 |
| Cynllunio Strategol a Gwerthuso | Cryf | Cryf | Canolig | Canolig | Cryf | Cryf | Cryf | Cryf | 151 |
| Rheolaeth Perfformiad | Cryf | Cryf | Canolig | Canolig | Cryf | Cryf | | Cryf | 147 |
| Arloesi, Ymchwil a Datblygu | Cryf | Cryf | Cryf | Gwan | Canolig | Cryf | | Cryf | 126 |
| Cysylltiadau Cyflenwr | Canolig | Canolig | Gwan | Canolig | Cryf | Cryf | Cryf | Cryf | 129 |
| Rheolaeth Amgylcheddol | Gwan | Canolig | Cryf | Canolig | Cryf | Canolig | Cryf | Canolig | 118 |
| Rheolaeth TGC | Canolig | Cryf | Canolig | Gwan | Cryf | Cryf | Cryf | Canolig | 136 |
| Recriwtio a Chadw Dysgwyr | Cryf | Cryf | Cryf | Cryf | Cryf | Canolig | Gwan | Cryf | 145 |
| Adeiladu Rhwydweithiau Proffesiynol | Cryf | Cryf | Cryf | Canolig | Cryf | Cryf | Cryf | Cryf | 156 |
| Adeiladu Partneriaethau Trefnyddol | Cryf | Cryf | Cryf | Canolig | Cryf | Cryf | Cryf | Cryf | 156 |
| Cysylltiadau rhiant/gofalwr | Cryf | Cryf | Cryf | Gwan | Cryf | Gwan | Canolig | Cryf | 131 |

Chwedi   Cryf ● x3   Canolig ● x2   Gwan ○ x1

Adapted from *The Strategic Toolkit*
John Marsh 1993

Mae’r canlynol yn ddetholiad o fesurau y gallai Corff Llywodraethu a’r Uwch Dîm Rheoli eu defnyddio i fonitro a gwerthuso perfformiad ysgol:

Canlyniadau:
Arolwg blynyddol/grŵp trafod yn defnyddio holiadur ffurfiol;
Cyfweliadau pan yn gadael – adborth staff ar effeithlonrwydd yr ysgol a beth y gellir ei wella
Adroddiadau arolwg allanol (e.e. Estyn KQ2);
Adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl ac asesiadau allanol eraill;

Dangosyddion:
Nifer y dyddiau hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (yn cynnwys effeithlonrwydd hyfforddiant);
Canmoliaeth (cyflawniadau staff a chydnabyddiaethau allanol i gefnogi staff)
penodiadau;
absenoldeb (%);
trosiant staff (%)

***Rhieni***
Mesurau:
Arolwg blynyddol/grŵp trafod yn defnyddio holiadur strwythuredig;
Adroddiadau arolwg allanol (e.e. Estyn KQ1, KQ3, KQ4);

Dangosyddion:
canmoliaeth (tystiolaeth o foddhad rhieni megis llythyrau a dderbyniwyd);
presenoldeb mewn nosweithiau rhieni (%);
presenoldeb yn noson Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr (%);
nifer y cwynion am yr ysgol;

***Disgyblion***
Mesurau:
Arolwg blynyddol/grŵp trafod;
Adroddiadau arolwg allanol (e.e. Estyn KQ1, KQ3, KQ4);
Canlyniadau arholiadau terfynol, e.e. TGAU A* i C; A* i G, Lefel ‘A’ , cymwysterau galwedigaethol, y Fagloriaeth Gymreig, canlyniadau v. rhagolwg (gwerth ychwanegol);

Dangosyddion:

Canmoliaeth a chyflawniadau (yn cynnwys chwaraeon a heb fod yn gwricwlaidd e.e. Gwobr Dug Caeredin)

Profion mewnol ac adroddiadau cynnydd;

Amser allan a 'gwaharddiadau' mewnol;

Gwaharddiadau tymor byr,

Gwaharddiadau parhaol, cwynion;

Darpariaeth ar gyfer y mwyaf abl a dawnus;

Darpariaeth ar gyfer anghenion arbennig myfyrwyr

***Rhai'n gadael ysgol***

Mesurau:

Adborth uniongyrchol ar eu cyfnod yn yr ysgol a'u barn am effeithlonrwydd yr addysgu a'r dysgu;

Y rhai'n gadael heb gymwysterau ffurfiol (%);

Yn mynd i waith (%), AU (%), AB (%), NEET (%)

***Llywodraethwyr a'r Uwch Dîm Rheoli***

Mesurau:

Adroddiadau Arolwg Allanol (e.e. Estyn ); hunan werthusiad o effeithlonrwydd y corff llywodraethu;

Ffurflenni hunan werthuso (%);

Hunan werthusiad o effeithlonrwydd yr ysgol;

Adborth o arolygon staff, rhieni a disgyblion

Dangosyddion:

Presenoldeb/absenoldeb mewn cyfarfodydd corff llywodraethu (%);

Presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgorau (%);

Presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi;

Lleoedd gwag ar y corff llywodraethu am fwy nag un tymor;

cwynion;

cysylltiad llywodraethwr cyswllt (o leiaf unwaith y tymor);

adroddiadau llywodraethwyr cyswllt (i'r corff llywodraethu).

***Y Gymuned***

Mesurau:

Adborth uniongyrchol gan ffurfwyr barn cymunedol allweddol (cyflogwyr, AALl a Chynghorwyr); adroddiadau arolwg allanol (e.e. Estyn);
Arolwg rhieni

Dangosyddion:
Lleoliadau profiad gwaith (% niferoedd a leolwyd a  % +ve adborth gan gyflogwyr); cydnabyddiaeth/canmoliaeth gan y gymuned, sylw yn y wasg  (% +ve); defnydd o gyfleusterau'r ysgol fel % o'r amser a'r adnoddau sydd ar gael);
Presenoldeb mewn digwyddiadau yn yr ysgol (e.e. cynyrchiadau theatrig);
Fforwm Cyflogwyr/cysylltiadau cyflogwyr – nifer y cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys a chanlyniadau.

Fframwaith Modelau Gwelliant
Mae'r canlynol yn arwydd o'r gorgyffwrdd rhwng yr amrywiol elfennau a meini prawf y Modelau Gwelliant detholedig.

| Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion | Fframwaith Arolwg Estyn Cwestiynau Allweddol | Dangosyddion Safon Buddsoddwyr mewn Pobl | Meini Prawf Model Rhagoriaeth Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth | 5.1, 5.2, 7.1, 7.2 | 1, 2, 4, 6, 7, 8 | 1, 2, 3, 4 |
| Gweithio gydag eraill | 3.1, 3.2 | 3, 6, 7 | 1, 2, 4, 5, 6, 8 |
| Rhwydweithiau ymarfer proffesiynol | 1.1, 1.2, 1.3 | 3, 9, 10 | 1, 2, 4, 5, 6, 8 |
| Ymyrraeth a chefnogaeth | 1.1, 1.2, 1.3, 2.1, 2.2 | 3, 8, 9, 10 | 6, 9 |
| Gwelliant ac atebolrwydd | 6.1, 6.2 | 5, 9, 10 | 1, 5, 9 |
| Cwricwlwm ac addysgu | 4.1, 4.2, 4.3 | 3, 6, 7 | 5, 6, 7, 9 |